# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
28 Tachwedd 2016

## SL(5)037 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad trosiannol i gynorthwyo trethdalwyr yr effeithir arnynt gan ailbrisio annomestig 2017. Maent yn rhagnodi rheolau i'w defnyddio i gyfrifo'r symiau a godir ar gyfer hereditamentau a fyddai â gostyngiad yn eu hawl i Ryddhad Ardrethi i Fusnesau Bach o ganlyniad i gynnydd yn eu gwerth ardrethol o ganlyniad i'r ailbrisio. Mae'r Rheoliadau yn gweithio drwy ostwng y cynnydd mewn atebolrwydd trethdalwyr cymwys, gan ganiatáu i unrhyw gynnydd gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd.

**Deddf Wreiddiol:** Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 [Saesneg yn unig]

**Fe'u gwnaed ar:** dyddiad heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar:** 22 Tachwedd 2016

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2016